

CYNGOR CYMUNED LLANGYNNWR
LLANGUNNOR COMMUNITY COUNCIL

CYNLLUN IAITH GYMRAEG
Paratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993


BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government



Medi 6ed 2005

Y CYNNWYS

- 1 DATGANIAD AGORIADOL**

- 2. CYFLWYNIAD I GYNGOR CYMUNED LLANGYNNWR**

- 3. CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETHAU**
 - 3.1 Polisiâu a Mentrau Newydd**
 - 3.2 Safonau Ansawdd**

- 4. YMDRIN Â'R CYHOEDD**
 - 4.1 Gohebu Ysgrifenedig**
 - 4.2 Cyfathrebu Dros Y Ffôn**
 - 4.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus**
 - 4.4 Cyfarfodydd Y Cyngor**
 - 4.5 Cyfarfodydd Wyneb Yn Wyneb Gyda'r Cyhoedd**
 - 4.6 Ffyrdd Eraill O Gyfathrebu Â'r Cyhoedd**

- 5. WYNEB CYHOEDDUS Y CYNGOR**
 - 5.1 Hunaniaeth Gorfforaethol**
 - 5.2 Arwyddion**
 - 5.3 Cyhoeddi, Argraffu Deunyddiau Cyhoeddus a Hysbysebu**
 - 5.4 Swyddogaethau Statudol A Hyrwyddo**
 - 5.5 Gwasanaethau Gan Bartïon Eraill**

- 6. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN**
 - 6.1 Staffio**
 - 6.2 Trefniadau Gweinyddol**
 - 6.3 Y Gwasanaeth Cyfieithu**
 - 6.4 Monitro**
 - 6.5 Cyhoeddusrwydd**
 - 6.6 Cysylltu Â'r Cyngor**

CYNGOR CYMUNED LLANGYNNWR CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Paratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Mewn cydweithrediad â Menter Taf Myrddin

A Bwrdd yr Iaith Gymraeg

1. DATGANIAD AGORIADOL

Mae Cyngor Cymuned Llangynnwr wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg â'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn ardal Cymuned Llangynnwr.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith, mai mater o arfer da yn hytrach na goddefgarwch yw eu galluogi i ddefnyddio'u dewis iaith ac y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith eu rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol. Bydd y Cyngor felly yn cynnig i'r cyhoedd yr hawl i ddewis naill ai y Gymraeg neu'r Saesneg i'w ddefnyddio wrth ymdrin ag ef.

Nod y Cyngor yw:

- galluogi pawb sydd yn defnyddio gwasanaeth y Cyngor, neu drafod gyda'r Cyngor, neu'n cyfrannu at y broses ddemocrataidd, i wneud hyn trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dewis personol yr unigolyn.
- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.

2. CYFLWYNIAD I GYNGOR CYMUNED LLANGYNNWR

Lleolir ardal Cyngor Cymunedol Llangynnwr ar ochr ddwyreiniol yr afon Tywi, gyferbyn â thref Caerfyrddin. Yn ddaearyddol, mae'n cwmpasu tua 2340 hectar, yn ymestyn yn agos at bentref Capel Dewi ar yr ochr ogleddol, i Gwmffrwd yn y de a bron hyd at bentref Llanddarog yn y dwyrain. Mae'n cynnwys pentrefi a phentrefannau Pensarn, Login, Pibwrlwyd, Llangynnwr a Nantycaws. Yn ôl Cyfrifiad Cenedlaethol 2001, mae'r Cyngor yn cynrychioli poblogaeth o oddeutu 2,300, a datganwyd gan 67.24% o'r boblogaeth eu bod yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg (siarad / darllen / ysgrifennu.)

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r ardal wedi ei thrawsnewid o fod yn gymdeithas wledig draddodiadol i ardal breswyl fodern gydag economi trefol. Mae pentref Pensarn wedi profi nifer o ddatblygiadau strategol, sy'n cynnwys ffyrdd osgoi Caerfyrddin i'r dwyrain a'r gorllewin, mae nifer o barciau mân-werthu tu allan i'r dref wedi eu lleoli yno yn ogystal ag archfarchnadoedd a nifer o fusnesau eraill. Mae gorsaf drenau Caerfyrddin wedi ei leoli o fewn dalgylch y Cyngor, yn ogystal â phencadlys Heddlu Dyfed-Powys a Gwasanaeth Prawf Dyfed-Powys. Mae'r rhan fwyaf o'r preswylwyr yn byw yn Llangynnwr a Nantycaws, sydd wedi gweld cynnydd sylweddol yn y boblogaeth dros y pum mlynedd ar hugain ddiwethaf. Maent bellach yn ardaloedd poblogaidd i gymudwyr a phobl wedi ymddeol. Yn Nantycaws hefyd mae cartref i ganolfan rheoli gwastraff mawr ar gyfer Gorllewin Cymru. Mae'r newidiadau hyn wedi rhoi nifer o sialensiau i'r gymuned, yn arbennig o safbwynt yr iaith Gymraeg. Dros y 75 mlynedd diwethaf, bu gostyngiad o bron i 30% o siaradwyr Cymraeg. Mae'n galonogol ac yn arwyddocaol bod y nifer sy'n honni eu bod nhw yn siaradwyr Cymraeg rhugl, wedi cynyddu o 2% yn y blynyddoedd rhwng 1991 a 2001, ac yn cyfrif am 54.4% o'r boblogaeth erbyn hyn.

Mae'r Cyngor, sydd wedi ei rannu yn ddwy Ward, yn cynnwys tri ar ddeg aelod wedi eu hethol, ac yn cyflogi un Clerc rhan amser, sy'n gweithio o adref. Mae'r Cyngor yn cyfarfod yn fisol (ar wahân i fis Awst) yn Yr Aelwyd, Tregynnwr, ac mae wedi ffurfio pwyllgor cynllunio, sydd yn ei alluogi i ganolbwyntio ar y dyletswydd pwysig hwn o'r Cyngor Cymunedol. Gan nad yw pob un o'r Cynghorwyr yn siaradwyr Cymraeg yn rhugl, mae'r cyfarfodydd yn dueddol o gael eu cynnal yn bennaf yn y Saesneg, a threfnir cyfieithiad ar y pryd i'r Aelodau di-Gymraeg pan wneir cyflwyniad Cymraeg yn y cyfarfodydd.

Mae yna Ysgol Gynradd fawr, lewyrchus yn yr ardal gydag oddeutu 300 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae'n darparu i natur ddwyieithog y gymdeithas gyda chydbywysedd o ddosbarthiadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg ac yn anelu i gymhwyso'r galw cynyddol am addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae yna ddosbarthiadau meithrin yn yr ysgol, yn ogystal ag athrawon peripatetig Cymraeg, sydd yn gymorth i gyflwyno'r Gymraeg i blant di-Gymraeg. Mae'r ysgol yn rhan bwysig o'r gymdeithas ac yn weithgar yn lleol ac yn genedlaethol, mewn gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon. Mae dau creche dwyieithog nad yw yn rhan o'r Awdurdod Addysg Lleol wedi eu sefydlu yn yr ardal hefyd.

Mae nifer o grwpiau cymdeithasol, diwylliannol a chymunedol yn ffynni. Mae'r rhain yn cynnwys Yr Urdd o fewn yr Ysgol, Sefydliad y Merched, Clwb i'r rhai dros 60

oed, Cymdeithas y Parc a Chlwb Cymdeithasol Tregynnwr. Mae yna ganghennau o Merched y Wawr a Chlwb Ffermwyr Ifanc yn cael eu cynnal yn y pentrefi cyfagos. Mae yna ddau gapel ac un eglwys, gyda gwasanaethau yn cael eu cynnal yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ogystal ag yn ddwyieithog.

Ymhlith prif ddyletswyddau'r Cyngor y mae:

- cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus;
- ystyried materion cynllunio;
- awgrymu gwelliannau yn ymwneud â phriffyrdd;
- cydweithio â'r heddlu i ddiogelu'r gymuned;
- cyfrifoldeb am oleuadau stryd;
- rhoi cymorth ariannol i nifer o fudiadau gwirfoddol ac elusenol;
- gofalu am seddau eistedd a byrddau arddangos cyhoeddus a phenodi cynrychiolwyr ar nifer o gyrff lleol ac allanol.

Y mae'r Cyngor yn gweithio i hyrwyddo datblygiadau cymunedol a gweithgareddau cymdeithasol gan ymateb i anghenion lleol er mwyn gwella safon byw yn yr ardal.

3. CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETHAU

3.1. Polisiâu a Mentrau Newydd

3.1.1. Wrth lunio neu ystyried polisiâu a mentrau newydd, bydd y Cyngor yn:

- asesu eu heffaith ieithyddol gan ofalu eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith.
- hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl, ac yn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb yn llawn bob cyfle a ddaw.
- ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn ag unrhyw fwriad fyddai'n effeithio ar y Cynllun hwn, neu Gynllun unrhyw gorff cyhoeddus arall. Ni newidir y Cynllun hwn heb gytundeb y Bwrdd.
- sicrhau bod y sawl sydd yn ymwneud â llunio polisiâu yn ymwybodol o'r Cynllun ac o gyfrifoldebau'r Cyngor o dan Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- sicrhau bydd y mesurau yn y Cynllun yn cael eu gweithredu wrth roi polisiâu a mentrau newydd ar waith.

Amserlen: Yn weithredol ers Ionawr 2004

3.2. Safonau Ansawdd

3.2.1. Bydd y Cyngor yn darparu gwasanaeth o'r un safon uchel ac yr un mor brydlon yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Amserlen: Yn weithredol ers Ionawr 2004

4. YMDRIN Â'R CYHOEDD

4.1. Gohebu Ysgrifenedig

4.1.1. Bydd y Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

4.1.2. Ni fydd gohebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn achosi oedi.

4.1.3. Caiff gohebiaeth Gymraeg ei ateb yn y Gymraeg.

4.1.4. Bydd gohebiaeth at unigolyn neu sefydliad, yn dilyn galwad ffôn neu sgwrs wyneb yn wyneb neu gyfarfod lle sefydlwyd mai'r Gymraeg yw dewis iaith y person neu'r sefydliad, yn Gymraeg, er mae'n bosibl na chynhaliwyd y drafodaeth yn y Gymraeg.

4.1.5. Dechreuir pob gohebiaeth ag aelod o'r cyhoedd yn ei dewis/ddewis iaith, (Cymraeg neu Saesneg) lle bo hynny'n hysbys. Os nad yw'r dewis iaith yn hysbys, bydd gohebiaeth gychwynnol y Cyngor yn ddwyieithog.

4.1.6. Bydd pob cylchlythyr a llythyr safonol i'r cyhoedd yn ddwyieithog.

4.1.7. Bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i gyfieithu gohebiaeth yn ôl yr angen er mwyn ateb llythyrau yn brydlon yn yr iaith wreiddiol.

4.1.8. Clerc y Cyngor fydd yn gyfrifol am anghenion cyfieithu y Cyngor.

4.1.9. Bydd papur pennawd swyddogol y Cyngor yn cynnwys datganiadau yn y ddwy iaith yn ei gwneud hi'n glir y croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg. [***GELLIR ATEB YN GYMRAEG NEU YN SAESNEG / YOU MAY REPLY IN WELSH OR ENGLISH***]

Amserlen: Hydref 2005

4.2. Cyfathrebu dros y Ffôn

4.2.1. Mae'r Clerc presennol yn gweithio o'i gartref a bydd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg. [Adolygu'r hyn bob tro y penodir Clerc i'r Cyngor]

Amserlen: Yn weithredol ar hyn o bryd

4.3. Cyfarfodydd Cyhoeddus a drefnir gan neu ar ran y Cyngor

- 4.3.1. Croesewir cyfraniadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir gan y Cyngor. Gwneir hyn yn glir yn y papurau sy'n galw neu'n hysbysebu'r cyfarfod.
- 4.3.2. Bydd pob hysbysrwydd am gyfarfod cyhoeddus o'r fath yn ddwyieithog, a darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfarfod ar gyfer y di-Gymraeg.
- 4.3.3. Pan fo'n hysbys i'r Cyngor fod aelod o'r cyhoedd yn dymuno siarad Cymraeg mewn cyfarfod cyhoeddus fyddai fel arall yn uniaith Saesneg, parchir hynny trwy wneud y trefniadau cyfieithu priodol. Os yw'n hysbys ar gychwyn y cyfarfod bod pawb sy'n bresennol yn siarad Cymraeg, cynhelir y cyfarfod yn Gymraeg.
- 4.3.4. Bydd o leiaf un swyddog neu Aelod Etholedig neu berson a enwebu'r gan y Cyngor yn bresennol mewn cyfarfodydd cyhoeddus i groesawu'r cyhoedd ac i ddelio ag ymholiadau, cwestiynau neu sylwadau yn Gymraeg yn ystod y cyfarfod.
- 4.3.5. Bydd unrhyw ddeunydd ysgrifenedig megis taflenni neu dryloywon sy'n cael eu defnyddio mewn cyfarfod cyhoeddus sy'n trafod y Gymraeg, Addysg Gymraeg, Treth y Cyngor neu wybodaeth am Etholiad/Isetholiad lleol yn ddwyieithog.

Amserlen: Yn weithredol ers Ionawr 2004

4.4. Cyfarfodydd y Cyngor

- 4.4.1. Mae cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal yn ddwyieithog a threfnir unrhyw anghenion cyfieithu gan y Cyngor.
- 4.4.2. Bydd pob Cyhoeddiad ac Agenda o gyfarfodydd y Cyngor yn ddwyieithog.
- 4.4.3. Bydd y cofnodion yn Saesneg.
- 4.4.4. Bydd y Cyngor yn ymateb yn newis iaith unrhyw ymholydd i geisiadau am wybodaeth sydd yn deillio o'r cofnodion, neu unrhyw ran o'r cofnodion.

Amserlen: Yn weithredol ers Ionawr 2004

4.5. Cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd

- 4.5.1. Bydd y Cyngor yn croesawu trafod gyda'r cyhoedd yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ac yn gofalu fod trefniadau yn cael eu gwneud i alluogi unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno gwneud hynny i drafod materion yn y Gymraeg gyda'r Clerc neu gyda'r Aelodau.

Amserlen: Yn weithredol ers Ionawr 2004

4.6. Ffyrdd eraill o gyfathrebu â'r cyhoedd

- 4.6.1. Pan yn cysylltu â'r cyhoedd trwy'r dechnoleg fodern [safle gwe, e-bost], bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r mesurau a osodwyd o dan: Gohebu Ysgrifenedig [4.1] a Hunaniaeth Gorfforaethol [5.1].

Amserlen: Hydref 2005

5. WYNEB CYHOEDDUS Y CYNGOR

5.1. Hunaniaeth Gorfforaethol

- 5.1.1. Enw'r Cyngor yw "Cyngor Cymuned Llangynnwr/Llangunnor Community Council"
- 5.1.2. Mae delwedd gorfforaethol ddwyieithog gan y Cyngor.
- 5.1.3. Mynegir enw a chyfeiriad y Cyngor yn ddwyieithog ar bapur pennawd swyddogol, papur ffacs, gohebiaeth e-bost a slipiau cyfarch, [safle gwe – pan yn berthnasol], ac unrhyw ddeunydd cyhoeddus arall.
- 5.1.4. Y mae Arfbais y Cyngor yn cynnwys arwyddair dwyieithog
- 5.1.5. Bydd y Cyngor yn annog sefydliadau i gyfeirio at y Cyngor yn ddwyieithog fel a nodir yn 5.1.1.

Amserlen: Hydref 2005

5.2. Arwyddion

- 5.2.1. Bydd pob arwydd gwybodaeth a godir gan y Cyngor am y tro cyntaf neu yn lle hen arwydd a ddarparwyd gan y Cyngor yn ddwyieithog, ac felly hefyd unrhyw arwyddion gwybodaeth gyhoeddus eraill y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt. Fe fydd y ddwy iaith yn ymddangos ochr yn ochr â'r fersiwn Cymraeg, ar y chwith. Lle bo hyn yn anymarferol bydd y Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf. Bydd maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y testun yn gyfartal yn y Gymraeg ac yn y Saesneg.

Amserlen: Yn weithredol ers Ionawr 2004.

5.3. Cyhoeddi, Argraffu Deunyddiau Cyhoeddus a Hysbysebu

- 5.3.1. Bydd deunydd a anelir at y cyhoedd megis dogfennau, a deunydd esboniadol sy'n ymwneud yn benodol â'r Gymraeg neu Addysg Gymraeg, Treth y Cyngor, gwybodaeth am etholiad/isetholiad lleol a ffurflenni grant yn ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn ymddangos yn yr un dogfen. Argraffir y ddau fersiwn ochr yn ochr lle bo'n bosibl er mwyn hwyluso croesgyfeirio, dosbarthu a chynnig dewis iaith.

- 5.3.2. Os bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd a byddant yr un mor hawdd i'w cael.
- 5.3.3. Yn y Saesneg bydd datganiadau i'r wasg yn arferol ond bydd y rhai sy'n ymwneud â'r Gymraeg, Addysg Gymraeg, Treth y Cyngor a gwybodaeth am Etholiad/Isetholiad lleol yn ddwyieithog, ond yn Gymraeg yn unig pan yn targedu'n benodol y papur bro leol – Cwllwm.
- 5.3.4. Bydd gweithgaredd hysbysebu a chyhoeddusrwydd y Cyngor yn ddwyieithog.
- 5.3.5. Yng nghyd-destun gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd bydd materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, addysg Gymraeg, Treth y Cyngor a gwybodaeth am etholiad/isetholiad lleol yn ddwyieithog a Chymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg.
- 5.3.6. Bydd hysbysebion a hysbysiadau y Cyngor - i'w gosod yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu mewn unrhyw gyfrwng arall, sydd yn ymwneud â'r Gymraeg, Addysg Gymraeg, Treth y Cyngor, a gwybodaeth am etholiad/isetholiad lleol yn ddwyieithog a Chymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg.
- 5.3.7. Bydd hysbysebion swydd yn ymddangos yn uniaith Saesneg mewn cyhoeddiadau Saesneg/dwyieithog, oni bai fod sgiliau dwyieithog yn ddymunol, yna bydd yr hysbysiad yn ddwyieithog a Chymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

Amserlen: Yn weithredol ers Ionawr 2004

5.4. Swyddogaethau statudol a hyrwyddo.

- 5.4.1. Yn y manylion a roddir i'r rhai sy'n bwriadu ymgeisio am gyfraniad ariannol tuag at weithgareddau lleol, bydd y Cyngor yn gwneud yn glir fod angen i ymgeiswyr ddisgrifio sut y maent yn bwriadu adlewyrchu natur ieithyddol y gymuned a'u cynulleidfa yn y gweithgaredd(au) y maent yn gofyn am gefnogaeth ariannol tuag ato(ynt). Wrth bwysu a mesur ceisiadau, bydd y Cyngor yn sicrhau fod ymgeiswyr wedi adlewyrchu natur ieithyddol y gymuned a'u cynulleidfa yn briodol yn eu cais.
- 5.4.2. Wrth gyflwyno cais bydd yr elfen ddwyieithog yn fater i'r ymgeisydd ei ystyried ac nid yn ofyniad gan y Cyngor wrth ddyrannu grant.
- 5.4.3. Pan ymgynghorir â'r Cyngor ar geisiadau cynllunio, bydd y Cyngor yn annog ymgeiswyr i godi arwyddion dwyieithog ar safleoedd megis swyddfeydd, busnesau a siopau ac archfarchnadoedd drwy gyfeirio at natur ieithyddol yr ardal.
- 5.4.4. Pan ymgynghorir â'r Cyngor ynglŷn ag enwau strydoedd, lonydd neu heolydd, datblygiadau ac ystadau newydd, bydd y Cyngor yn cefnogi

defnyddio enwau dwyieithog. Lle mai dim ond mân wahaniaeth sydd rhwng y sillafiad Cymraeg â'r Saesneg o enw lle, stryd, lôn, heol, ward, neu gymuned, bydd y Cyngor yn cefnogi mabwysiadu'r ffurf Gymraeg.

Amserlen: Yn weithredol ers Ionawr 2004

5.5. Gwasanaethau gan Bartïon Eraill

5.5.1. Bydd unrhyw drefniadau a wneir gan y Cyngor i ddefnyddio trydedd bartïon i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar ei ran yn cydymffurfio â gofynion penodol y Cynllun fel a amlinellwyd gan y Cyngor. Bydd y Cyngor yn nodi pa fesurau perthnasol o'r Cynllun y bydd angen i'r trydydd parti gydymffurfio â nhw yn y manylebion tendro neu gcontract.

5.5.2. Bydd angen i'r trydydd parti gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r mesurau perthnasol o'r Cynllun trwy lythyr.

Amserlen: Hydref 2005

6. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

6.1. Staffio

6.1.1. Mae Clerc presennol y Cyngor yn ddwyieithog. Pan ddaw y swydd honno yn wag nodir yn yr hysbysiad(au) y byddai cael sgiliau dwyieithog yn ddymunol [ond nid yn hanfodol].

Amserlen: Ionawr 2004

6.2. Trefniadau Gweinyddol

6.2.1. Mae gan y Cynllun hwn gefnogaeth lawn y Cyngor.

6.2.2. Y Clerc fydd yn gyfrifol am weithrediad y Cynllun o ddydd i ddydd o fewn y Cyngor.

Amserlen: O'r dyddiad a gymeradwyir y Cynllun gan Bwrdd yr Iaith

6.3 Y Gwasanaeth Cyfieithu

6.3.1. Y Clerc fydd yn gyfrifol am anghenion cyfieithu y Cyngor, a bydd hefyd yn gyfrifol am safon y gwasanaeth cyfieithu.

6.3.2. Yn ôl y galw, bydd y Cyngor yn cyflogi cyfieithydd allanol.

6.3.3. Bydd y Clerc yn gyfrifol am drefnu gwasanaeth cyfieithu ar-y-pryd ar gyfer holl anghenion y Cyngor. Darperir ym mhob cyfarfod cyhoeddus a drefnir gan neu ar ran y Cyngor, lle mae ei angen, ac mewn unrhyw gyfarfod Cyngor arall yn ôl penderfyniad y Cyngor.

Amserlen: Ionawr 2004

6.4. Monitro

- 6.4.1. Bydd Clerc y Cyngor a'r Aelodau yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y Cynllun ac am ei adolygu yn flynyddol.
- 6.4.2. Bydd y Cyngor yn paratoi adroddiad blynyddol byr ar weithrediad y Cynllun, a fydd yn cael ei gyhoeddi'n lleol [e.e. ar safle-wê, y wasg leol, byrddau arddangos lleol, papur bro ayyb], ac anfonir copi ohono at Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd y Cyngor hefyd yn gwahodd trigolion Cymraeg yr ardal i gynnig eu barn am y gwasanaeth a sut y gellir ei wella, trwy osod copi o'r Adroddiad ar hysbysfyrddau y Cyngor ac ar safle-wê y Cyngor.
- 6.4.3. Bydd yr Adroddiad yn delio â phob agwedd o'r Cynllun Iaith.
- 6.4.4. Bydd y Cyngor yn croesawu awgrymiadau gan y cyhoedd (trwy lythyr, e-bost neu dros y ffôn) ar sut i wella unrhyw agwedd o'r Cynllun.

Amserlen: O'r dyddiad a gymeradwyir y Cynllun gan Bwrdd yr Iaith

6.5. Cyhoeddusrwydd

- 6.5.1. Bydd y Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun trwy'r wasg leol ac ar ei fyrddau hysbysebu

Amserlen: O'r dyddiad a gymeradwyir y Cynllun gan Bwrdd yr Iaith

6.6. Cysylltu â'r Cyngor

- 6.6.1. Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau, cwynion neu awgrymiadau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun i sylw:

**I W Davies
Clerc/Clerk
Cyngor Cymuned Llangynnwr/Llangunnor Community Council
Rhoshelyg
Lôn Penymorfa
Llangynnwr
Caerfyrddin
SA31 2NW**

**Tel; 01267 237859
E-mail: i.wyndavies@btopenworld.com**
